Taflen wybodaeth Rhif.004

# Benthyciadau tymor byr cost uchel

## Methu ag ad-dalu ar amser

**Meddyliwch yn ofalus - efallai nad parhau neu ymestyn eich benthyciad fyddai'r opsiwn gorau, a gallai wneud pethau'n waeth.**

### Peidiwch ag anwybyddu'r broblem

- **Meddyliwch yn ofalus cyn benthyca mwy.** Mae benthyca mwy o arian yn debygol o waethygu eich sefyllfa.
- **Gweithiwch allan faint sy'n ddyledus gennych.** Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i chi restru pob un y mae arnoch arian iddynt. Gall cynghorydd dyledion eich helpu.
- **Talwch ddyledion â blaenoriaeth yn gyntaf.** Mae rhai dyledion yn bwysicach nag eraill am y gall canlyniadau peidio â'u talu fod yn fwy difrifol nag ar gyfer dyledion eraill, er enghraifft, morgais, rhent, treth gyngor/ardrethi neu ôl-ddyledion nwy neu drydan. Gall cynghorydd dyledion eich helpu i lunio cyllideb i reoli eich arian.

### Trafodwch eich opsiynau gyda'ch llwyfan benthyca un i un (P2P)

- Os byddwch yn ei chael hi'n anodd ad-dalu ar amser, siaradwch â'ch llwyfan P2P a all gynnig ffyrdd o ad-dalu a sicrhau y gallwch fforddio gwneud hynny.
- Os na wnewch hynny gallech wynebu mwy o gostau oherwydd llog neu daliadau yn gyflym. Gallai taliadau a fethwyd hefyd effeithio ar eich statws credyd a'i gwneud yn fwy anodd i chi gael credyd yn y dyfodol.

### Ceisiwch help a chyngor am ddim

- Mae'r bobl sy'n cael cyngor yn datrys eu problemau yn gynt na'r rhai sy'n dewis peidio â gwneud hynny, ac mae cannoedd o filoedd o bobl yn cael cyngor am ddim ar ddyled bob blwyddyn
- Cysylltwch ag un o'r sefydliadau hyn am gyngor am ddim ar ddyled.

Trowch drosodd am fanylion am ble i gael help a chyngor.

## Help a chyngor

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau dielw hyn i gael cyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ddyled, neu i gael manylion ble i gael cyngor o'r fath yn eich ardal chi.

Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Er mwyn cael adnoddau arian, gwybodaeth a chyngor diduedd a hawdd eu deall am ddim, ewch i **www.moneyadviceservice.org.uk** neu ffoniwch **0800 138 0555** (Cymraeg) neu **0800 138 7777** (Saesneg) er mwyn siarad â Chynghorydd Arian

Money Advice Scotland
Os ydych yn byw yn yr Alban, ffoniwch **0141 572 0237** neu ewch i **www.moneyadvicescotland.org.uk** i gael manylion cyswllt am gyngor ar ddyled yn eich ardal leol

Citizens Advice Northern Ireland
Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, ffoniwch **0800 028 1881**, anfonwch neges e-bost i **debt.advice@citizensadvice.co.uk** ewch i **www.citizensadvice.co.uk**.net i gael cyngor ar ddyled

AdviceUK
Mae aelod-ganolfannau yn cynnig cyngor ar ddyledion gan gynnwys cyngor arbenigol i gymunedau lleiafrifol a phobl ag anableddau – **www.adviceuk.org.uk** neu ffoniwch **0300 777 0107**

Cristnogion yn erbyn Tlodi (CAP)
I gael cyngor ar ddim ar ddyled yn eich cartref, edrychwch i weld pa godau post a gwmpesir yn **www.capuk.org** ac yna ffoniwch **0800 328 0006**

Cyngor ar Bopeth
I gael cyngor a gwybodaeth am ddyled a phynciau eraill, ewch i'ch Cyngor ar Bopeth leol (mae'r cyfeiriad yn y llyfr ffôn) neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**

Y Llinell Ddyled Genedlaethol
Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban ffoniwch **0808 808 4000** neu ewch i **www.nationaldebtline.org** i gael cyngor a gwybodaeth am ddyled

Elusen Ddyled StepChange
I gael cyngor ar ddyled ledled y DU ffoniwch **0800 138 1111** neu ewch i **www.stepchange.org**

### Sefydliadau defnyddiol eraill

Cyngor Cyfreithiol Sifil
Gallwch gael cyngor cyfreithiol os yw eich cartref mewn perygl. Ewch i **www.gov.uk/civil-legal-advice** neu ffoniwch **0345 345 4345**

Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol
Os oes gennych gwyn na allwch ei datrys gyda'ch benthyciwr, efallai y gall Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol eich helpu - ffoniwch **0300 123 9123** neu **0800 023 4567** neu ewch i **www.financial-ombudsman.org.uk**